



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref CL-01-16

Awdurdodau Addysg Lleol
Awdurdodau Cynllunio Lleol
Swyddogion Arweiniol Gofal Plant yr Awdurdodau Lleol
Rheolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yr Awdurdodau Lleol

12/02/2016

Annwyl Gydweithwyr

CYNLLUNIO A GOFAL PLANT YNG NGHYMRU

Mae'r Llythyr Egluro Polisi hwn yn ymwneud â chynllunio, gwarchod plant a darpariaeth gofal dydd. Daw oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac Is-adran Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn ail-ddatgan pwysigrwydd y ddarpariaeth gofal plant sydd wedi'i nodi mewn llythyrau yn y gorffennol, gan egluro'r cysylltiad gyda Polisi Cynllunio Cymru, ac mae'n rhoi y newyddion diweddaraf am reoleiddio gofal plant, gan gynnwys ymestyn y terfyn oedran uwch ar gyfer rheoleiddio cofrestru gofal plant o wyth i ddeuddeg oed. Mae Cylchlythyrau CL-08-03 "Cynllunio a gwarchodwyr plant" ym mis Tachwedd 2003, a CL-02-06 "Cynllunio a Gofal Plant yng Nghymru" ym mis Awst 2006 a llythyr y prif swyddogion cynllunio ar 25 Ionawr 2011 "Gwarchod Plant a'r System Gynllunio" wedi eu diddymu.

Mae sicrhau gofal plant fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'n galluogi rhieni i weithio, derbyn hyfforddiant, ac yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau lleol gydweithio i helpu i gefnogi datblygiadau mewn gwasanaethau gofal plant i blant a theuluoedd. Mae hyn yn unol â phrif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sef darparu gofal plant fforddiadwy sy'n hawdd ei gael, fel sydd wedi'i flaenoriaethu o fewn Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi a Chynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol rhesymol, ofal plant digonol i fodloni

Planning Directorate • Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ

Cyfarwyddiaeth Cynllunio • Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

anghenion rhieni/gofalwyr yn eu hardal, sydd angen gofal plant er mwyn hyfforddi, gweithio neu astudio.

I helpu awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth yn eu hardal, cynhelir Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant sy'n nodi unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i sefydlu trefniadau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth ac i gynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol. O gofio y flaenoriaeth uchel y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r ddarpariaeth gofal plant, mae'n bwysig bod y partion perthnasol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth gofal plant yn cydweithio i sicrhau bod digon o gyfleusterau gwarchod plant a gofal dydd wedi'u darparu o fewn ardal eu hawdurdod lleol. Dylai'r eglurhad o Bolisi Cynllunio Cymru sydd wedi'i gyflwyno yn **Atodiad A** gael ei gefnogi gan drafod rheolaidd rhwng awdurdodau cynllunio lleol, a'r swyddogion hynny o'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth gofal plant. Trwy gydweithio, bydd pob rhanddeiliad yn chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau gwell canlyniadau a fydd yn cael effaith fuddiol a pharhaol ar y cymunedau a gefnogant.

Caiff gofal plant ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Er bod gan awdurdodau cynllunio lleol ac AGGCC ran i'w chwarae yn y gwaith o gymeradwyo darpariaeth gofal plant newydd, mae'r prosesau hyn yn gweithredu'n annibynnol. Wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y cynllun datblygu statudol ac amgylchiadau pob achos. Nodir y meini prawf a ddefnyddir gan AGGCC i gofrestru ac arolygu'r ddarpariaeth yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010¹ a'r safonau a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r safon gofal hwn wedi'i sicrhau drwy arolygu a rheoleiddio gan AGGCC. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â diogelwch a lles y plant sy'n cael gofal plant ac ansawdd y gofal a gânt.

Yn flaenorol, roedd cydymffurfio â rheoliadau cynllunio ac adeiladu yn un o'r safonau gofynnol cenedlaethol. Nid yw hyn yn wir bellach felly nid oes yn rhaid i'r AGGCC weld tystiolaeth o gydymffurfio. Y darparwr gofal plant sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gynllunio.

O fis Ebrill 2016 bydd y terfyn uwch ar gyfer cofrestru ar gyfer gofal plant yn cael ei godi o 8 i 12 mlwydd oed. Golyga hyn y bydd yn rhaid i bob darparwr gofal plant sy'n edrych ar ôl (neu'n bwriadu edrych ar ôl) plant 8 i 12 mlwydd oed gofrestru gyda'r AGGCC.

Mae'r ddeddfwriaeth gynllunio yn parhau yr un fath. Felly os yw gwarchodwyr plant eisoes yn edrych ar ôl plant 8 i 12 mlwydd oed (a bod nodweddion y defnydd o'u hannedd yn golygu nad oes angen caniatâd cynllunio), ni fydd y ffaith bod angen iddynt gofrestru eu bod yn gofalu am y grŵp oedran hwn yn cael effaith ar a oes angen caniatâd cynllunio arnynt.

Bydd angen i'r gwarchodwr plant ystyried a oes angen caniatâd cynllunio pan fyddant yn bwriadu cynyddu y nifer cyffredinol o blant y maent yn gofalu amdanynt yn eu

¹ Mae'r Rheoliadau hyn a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd i adlewyrchu'r newid hwn


Planning Directorate • Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ

Cyfarwyddiaeth Cynllunio • Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

cartref (boed o oedran cofrestru neu beidio); neu maent yn bwriadu gwneud newidiadau i du allan i'r adeilad.

Efallai yr hoffai gwarchodwyr plant dderbyn cyngor gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch eu bwriadau. Mae llythyr enghreifftiol yn **Atodiad B**, a holiadur yn **Atodiad C**, i warchodwyr plant eu. defnyddio i ofyn i'r awdurdod cynllunio lleol am farn anffurfiol ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynlluniau. O ystyried pa mor bwysig yw'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ymateb i ymholiadau o'r fath heb godi tâl.

Yn gywir



Neil Hemington
Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio



Owain Lloyd
Pennaeth yr Is-adran Gofal Plant a Chwarae

Atodiad A

Mae'r atodiad hwn yn egluro'r polisi ac yn rhoi arweiniad ar ddarparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd yng Nghymru, ac yn cynnwys rhagor o wybodaeth gefndir am y fframwaith rheoleiddio perthnasol.

DARPARU GWASANSAETH GOFAL PLANT A GOFAL DYDD

Eglurhad o'r Polisi Cynllunio

Mae mynediad i ofal plant fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'n galluogi rhieni i weithio, derbyn hyfforddiant, ac mae'n cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi ac anghydraddoldebau. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ac awdurdodau lleol gydweithio i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal plant i blant a theuluoedd.

Mae Adran 7.2 o Bolisi Cynllunio Cymru yn gysylltiedig â datblygu economaidd, mae'n nodi y dylai penderfyniadau ar reoli datblygiadau ystyried polisiau datblygu lleol a thystiolaeth sydd o bwys yn lleol. Dylai hyn gynnwys Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol.

Mae Adran 7.6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu dull bositif ac adeiladol o fynd i'r afael â datblygu economaidd.

Camau gweithredu:

- Mae Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yr awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol wrth helpu awdurdodau lleol i asesu a rheoli pa mor ddigonol yw y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. O ran ei natur, mae gofal plant yn drawsbynciol, ac oherwydd hyn mae'n gysylltiedig ag amrywiaeth eang o feysydd polisi ar draws awdurdodau lleol, gan gynnwys adrannau cynllunio. Dylai'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant adlewyrchu hyn a dylai cydweithwyr mewn adrannau cynllunio sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r galw am leoedd gofal plant o fewn eu hardaloedd a sut y maent yn darparu'r rhain, neu'n bwriadu eu darparu.
- Wrth lunio polisi cynllunio, ystyried ceisiadau cynllunio, a darparu cyngor cyn cyflwyno ceisiadau, dylai awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i'r holl ffactorau perthnasol yn yr ardal ac ystyried yn llawn yr angen am leoedd gofal plant yn lleol.

Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol

Yr Angen am Ganiatâd Cynllunio

Gall fod angen caniatâd cynllunio mewn perthynas â gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd yn yr amgylchiadau hyn:

- Os bwriedir datblygu adeiladau newydd
- Os bwriedir ehangu neu newid adeiladau presennol yn gorfforol

- Mae cychwyn neu ddwysáu defnydd o adeiladau sydd eisoes yn bodoli i warchod plant neu ddarparu gofal dydd yn "newid defnydd perthnasol"

Newid Defnydd

Fel rheol, nid oes angen caniatâd cynllunio pan nad yw defnyddio rhan o gartref at ddiben busnes yn newid cymeriad cyffredinol y defnydd a wneir o eiddo fel preswylfa.

Mae cydymffurfio â safonau gwarchod plant yn wahanol i ganiatâd cynllunio; efallai y bydd angen caniatâd cynllunio o hyd os bydd defnydd busnes mewn cartref (fel gwarchod plant), ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, yn peidio â bod yn ymylol o gymharu â'r prif ddefnydd a wneir o'r cartref fel preswylfa. Yn yr achos hwn, bydd yr awdurdod wedi dod i'r casgliad bod newid defnydd perthnasol yn debygol o fod wedi digwydd, a bydd angen ceisio caniatâd cynllunio.

Mae'r hen egwyddor gynllunio, sef defnydd atodol (neu ymylol), yn cydnabod y gellir cychwyn gweithgareddau newydd mewn adeilad neu o fewn ei libart heb fod angen caniatâd cynllunio, ar yr amod bod y gweithgareddau'n parhau'n atodol i'r prif ddefnydd. Os yw'r defnydd busnes neu'r defnydd nad yw'n ddefnydd preswyl yn cynhyrchu mwy o ymwelwyr, traffig, sŵn neu fygdarth nag y byddai disgwyl i'r eiddo ei wneud pe câi ei ddefnyddio fel cartref heb unrhyw ddefnydd atodol o'r fath, gall hynny, o bosibl, awgrymu newid defnydd perthnasol. Yr awdurdod cynllunio lleol sydd i benderfynu a yw defnydd yn atodol, neu a yw'n gyfystyr â newid defnydd perthnasol.

Cynghorir y sawl sy'n ystyried gwneud gwaith gwarchod plant gartref i geisio cyngor eu hawdurdod cynllunio lleol yn fuan.

Mae canllawiau blaenorol gan Lywodraeth Cymru yn annog darparu cyngor cynllunio i warchodwyr plant sy'n gweithio o'u cartrefi a hoffem i'r trefniant anffurfiol hwn barhau. Mae cwestiynau ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio y tu allan i gwmpas gwaith y gwasanaeth cynghori statudol cyn ymgeisio fyddai angen i awdurdodau cynllunio lleol ei gynnig o fis Mawrth 2016.

Felly mae'r holiadur yn **Atodiad B** yn cynnig ffordd o ddarparu gwybodaeth sylfaenol am fwriad i warchod plant. Gallai darpar warchodwyr plant weld y llythyr yn **Atodiad C** yn ddefnyddiol i hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol eu bod yn bwriadu dechrau gwarchod plant yn eu cartref, gan amgáu'r holiadur i ddarparu gwybodaeth sylfaenol i helpu'r awdurdod cynllunio lleol i ymateb. Dylai'r wybodaeth a ddarperir fod yn glir, yn gyson ac yn amserol. O ystyried pwysigrwydd y ddarpariaeth gofal plant i'r rhan fwyaf o ardaloedd yr awdurdod cynllunio lleol, mae Llywodraeth Cymru yn annog yr awdurdodau cynllunio lleol i ymateb i ymholiadau o'r fath heb godi tâl.

Os yw rhywun am fod yn sicr nad oes angen cais cynllunio i wneud yr hyn a fwriada, gall wneud cais am dystysgrif gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae'r broses Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig (TCDDA) yn rhoi mesur o ffurfioldeb a sicrwydd na all ymholiadau anffurfiol ei gynnig. Mae ffi (£190 ar hyn o bryd) yn daladwy i'r awdurdod cynllunio lleol, ac mae hawl i apelio os gwrthodir tystysgrif. Gellid defnyddio'r holiadur yn Atodiad C mewn perthynas ag ymholiad anffurfiol neu i roi gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chais am TCDDA. Pan fo'n debygol neu'n hysbys eisoes bod angen caniatâd cynllunio i newid defnydd, er enghraifft o ran gofal dydd, gellir defnyddio'r gwasanaeth cyngor statudol cyn

ymgeisio (o fis Mawrth 2016). Bydd ffurflen yn cael ei chyhoeddi gan Weinidogion Cymru ar gyfer hyn a dylid defnyddio'r holiadur yn Atodiad C i ychwanegu at yr wybodaeth a ddarparwyd i'r awdurdod cynllunio. Y ffi ar gyfer cyngor cyn ymgeisio i newid defnydd hyd at 999 metr sgwâr o arwynebedd llawr fydd £250.

Yn ogystal â chyngor gan awdurdodau cynllunio lleol, mae'n bosib i'r rhai hynny sydd am gael caniatâd cynllunio dderbyn cyngor hefyd gan Gyngor Cynllunio Cymru.

Gwasanaeth gwirfoddol yw Cyngor Cynllunio Cymru, sy'n cynnig cyngor annibynnol a phroffesiynol ar faterion cynllunio i grwpiau cymunedol ac unigolion.

www.cyngorcynllunio.cymru.org.

Polisi Cynllunio Lleol - cynllun datblygu statudol yr awdurdod cynllunio

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniadau yn unol â'r polisiâu a osodwyd allan yn eu cynlluniau datblygu, onid yw ystyriaethau perthnasol yn eu harwain i benderfynu fel arall. Mae'n ofynnol i awdurdodau ymgynghori'n lleol ac ystyried sylwadau a gyflwynir wrth baratoi cynlluniau datblygu. Bydd gofyn i awdurdodau sy'n paratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol ddangos bod pobl a sefydliadau lleol wedi cyfrannu at baratoi'r cynllun o'r cychwyn.

Gall swyddogion cynllunio roi cyngor ar bolisiâu cynlluniau datblygu eu hardal, a gallant nodi sut a phryd y caiff y sawl sydd â diddordeb gyfrannu at baratoi'r cynllun. Dyma gyfle i'r sawl sy'n gyfrifol am ddatblygu gofal plant gyflwyno sylwadau ar bolisiâu a ddylai fod yn sail i benderfyniadau dilynol yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch ceisiadau cynllunio a allai fod yn angenrheidiol er mwyn defnyddio adeiladau ar gyfer gofal plant.

Apeliadau Cynllunio

Mae'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol i wrthod caniatâd cynllunio, neu fethu penderfynu ar gais cynllunio o fewn 8 wythnos. Mae'n rhaid apelio o fewn chwe mis i'r penderfyniad, neu, yn achos peidio â chael penderfyniad, ar ddiwedd y cyfnod o wyth wythnos o ddyddiad cofrestru'r cais. Yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n delio ag Apeliadau Cynllunio, asiantaeth weithredol Llywodraeth Cymru.

www.gov.uk/government/organisations/planning-inspectorate

Y System Gynllunio a nifer y plant y gofelir amdanynt

Mae'r Safonau Gofynnol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio yn newid. Tan Ebrill 2016, galla gwarchodwyr plant ledled Cymru ofalu am uchafswm o chwech o blant o dan wyth oed. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2016, bydd trefniadau cofrestru newydd ar gyfer gofal plant yn caniatâu i warchodwyr plant ofalu am uchafswm o 10 o blant (gan gynnwys eu plant eu hunain, ac eraill y maent yn gyfrifol amdanynt) os ydynt o dan 12 oed. Gallai rhai gwarchodwyr plant gydweithio ar yr un safle, a gallai hyn gynyddu cyfanswm y plant y gellir gofalu amdanynt ar yr un safle.

Mae AGGCC yn penderfynu ar nifer priodol y blant y mae'n bosibl gofalu amdanynt ar leoliad penodol drwy ystyried amrywiol ffeithiau ac amgylchiadau. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys archwilio'r safle, y tu mewn a'r tu allan, ac mae'n cynnwys agweddau ar iechyd, hylendid a diogelwch (gan gynnwys trefniadau diogelwch ac atal tân) yn ogystal ar lle sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau i blant. Mae nifer y plant y gellir gofalu amdanynt yn rhan annatod o broses cofrestru a arolygiaeth

AGGCC. Bydd arolygwyr AGGCC yn penderfynu as yw safleoedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer gofal plant, gan gymryd i ystyriaeth y nifer mwyaf o blant y gall gwarchodwr plant edrych ar ol ar unrhyw adge a'r lle sydd ar gael ar gyfer pob plentyn.

Pe byddai'r awdurdodau yn penderfynu, yng ngoleuni'r cyngor a amlinellir uchod, y dylid cael caniatâd cynllunio i unigolyn ddefnyddio eu cartref at ddibenion gwarchod plant, yna os nad oes rhesymau cynllunio penodol ar gyfer gwneud hynny drwy amodau, ni ddylent nodi na chyfyngu ar nifer y plant sydd i gael eu gwarchod.

Canllawiau i Awdurdodau Lleol

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol rhesymol, digon o gyfleusterau gofal plant i fodloni anghenion rhieni/gofalwyr yn eu hardal, sydd angen gofal plant er mwyn hyfforddi, gweithio neu astudio.

I helpu awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth yn eu hardal ac i gyflawni eu dyletswydd statudol, cynhelir Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ganddynt i asesu'r galw am y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal ac a yw ar gael. Mae'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn nodi unrhyw brinder yn y ddarpariaeth yn eu hardal sy'n galluogi awdurdodau lleol i sefydlu trefniadau i fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth ac i gynllunio ar gyfer y galw yn y dyfodol. O ysyrted y flaenoriaeth uchel y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r ddarpariaeth gofal plant, mae'n bwysig bod y partïon perthnasol, sy'n rhan o'r ddarpariaeth gofal plant, yn cydweithio i sicrhau bod digon o gyfleusterau gwarchod plant a gofal dydd ar gael o fewn ardal eu hawdurdod lleol.

Atodiad B

Templad drafft o lythyr gan ddarpar warchodwr plant yn gofyn am farn anffurfiol ar yr angen am ganiatâd cynllunio.

Annwyl [Prif Swyddog Cynllunio yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol]

Rwyf yn ystyried bod yn warchodwr plant cofrestredig. Y bobl sy'n byw ar fy aelwyd yw [oedolion a/neu blant a'u hoedran]. Bydd fy musnes gwarchod plant yn cael ei redeg o'm cartref yn y cyfeiriad hwn.

Bwriadaf warchod uchafswm o [ee 6 o blant] o dan 12 oed.

Fesul diwrnod, rwy'n cadarnhau fod y canlynol yn wir am fy musnes arfaethedig:

- Bydd fy nghartref yn dal i gael ei ddefnyddio fel preswylfa breifat
- Ni fydd fy musnes yn arwain at gynnydd mawr mewn traffig na phobl yn galw
- Ni fydd fy musnes yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau sy'n anarferol mewn ardal breswyl
- Ni fydd fy musnes yn amharu ar fy nghymdogion ar adegau afresymol nac yn creu mathau eraill o niwsans fel sŵn neu arogleuon

A minnau'n rhedeg fy musnes fel gwarchodwr plant cofrestredig, gallaf gadarnhau mai cartref fydd fy nghartref yn bennaf o hyd.

Rwy'n deall o daflen Llywodraeth Cymru: *Caniatâd Cynllunio - Arweiniad ar gyfer Busnesau*,

(<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/ppguidebusiness>) nad oes angen caniatâd cynllunio arnaf i gynnal fy musnes gwarchod plant fel yr wyf wedi ei ddisgrifio uchod. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn anffurfiol ar a oes angen caniatâd cynllunio. Rwy'n deall na fydd eich barn yn rhwymo'r awdurdod cynllunio lleol. Hefyd, pe byddai fy musnes yn newid mewn unrhyw ffordd, mae'n ddyletswydd arnaf eich hysbysu.

Rwyf wedi amgáu holiadur wedi ei lenwi yn rhoi manylion fy musnes. Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch cysylltwch â mi os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Darpar warchodwr plant

Atodiad C

HOLIADUR GWARCHOD PLANT

BYDD EICH ATEBION I'R CWESTIYNAU HYN YN RHOI GWYBODAETH I'R AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HELPŪ I DDWEUD WRTHYCH A OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO ARNOCH I WARCHOD PLANT

1.	Enw(au)'r gwarchodwr(wyr) plant a chyfeiriad llawn yr adeilad lle gwarchodir plant. Rhowch rif(au) ffôn a/neu gyfeiriad e-bost hefyd	Enw(au) Cyfeiriad Rhif Ffôn E-bost
2.	Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person sy'n holi (os yw'n wahanol)	Enw Cyfeiriad Rhif Ffôn E-bost
3.	Cadarnhewch os gwelwch yn dda mai preswylfa yw'r man gwarchod plant	
4.	Uchafswm y plant y bwriedir eu gwarchod	
5.	Ystod oedran y plant y bwriedir eu gwarchod	
6.	Yn ogystal â'r plant uchod, a fydd unrhyw un arall (ee gwarchodwr plant cynorthwyol) yn gweithio ar y safle neu'n ymweld mewn perthynas â gwarchod plant? Os felly,	
7.	Ar ba ddyddiau ac oriau y disgwylir gwarchod plant?	
8.	Rhestrwch nifer yr ystafelloedd a'r mathau o ystafelloedd yn y breswylfa.	
9.	A fydd unrhyw ystafell benodol yn cael ei neilltuo ar gyfer gwarchod plant? Os felly, rhowch fanylion os	

10.	<p>A yw'r breswylfa, neu ei libart, yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw perthynas â busnes, cadw cerbydau nas defnyddir ar gyfer cludiant domestig gan bobl sy'n byw yn y tŷ, defnydd fel swyddfa, cadw llawer o anifeiliaid anwes, neu unrhyw weithgaredd arall sydd uwchlaw defnydd domestig arferol fel preswylfa gan bobl sy'n arfer byw yno)? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda, hyd yn oed os ydych yn ansicr ynghylch perthnasedd unrhyw</p>	
11.	Os gwnaethoch ateb "bydd" i Gwestiwn 6, amcangyfrifwch sawl car fyddai'n cael eu parcio wrth y breswylfa neu'n agos ati	
12.	Amcangyfrifwch sawl "taith cerbyd" fyddai'n cael eu cynhyrchu bob dydd gan y gweithgarwch gwarchod plant (byddai rhiant yn dod â phlentyn ac yn casglu plentyn yn cyfrif fel dwy "daith cerbyd")	
13.	Ymhle rydych yn disgwyl y byddai cerbydau a fyddai'n galw am gyfnod byr, neu'n parcio trwy'r dydd, yn cael eu parcio? (efallai yr hoffech gynnwys braslun i ddangos trefniadau	
14.	Unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei rhoi (cyplyswch nodiadau pellach os dymunwch)	

Eich Llofnod **Dyddiad**

.....

DS. Trefn anffurfiol yw hon, i'ch galluogi i gael cyngor proffesiynol am gynllunio gan swyddogion cynllunio lleol yn gyflym, ond ni fydd yr ymateb i'ch ymholiad yn rhwymo'r awdurdod yn gyfreithiol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd ymateb anffurfiol yn bosibl.

Gallwch gael ymateb ffurfiol trwy wneud cais ffurfiol am Dystysgrif sy'n nodi a oes angen caniatâd cynllunio, a gall swyddogion cynllunio roi cyngor pellach ynghlŷn â hyn.